**Y BWRDD GWEITHREDOL**

Dydd Llun, 25 Ebrill 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a/ac J. Tremlett

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
Councillors D. Cundy, T. Devichand and J.S. Edmunds.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
I. Jones, Pennaeth Hamdden
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
S. Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
S.E. Watts, Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 a.m. - 10.45 a.m.**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol oedd wedi eu cynnal ar 21ain Mawrth ac ar 11eg Ebrill 2016 gan eu bod yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YNGHYLCH ANSAWDD AER CAERFYRDDIN**

Gan gyfeirio at gofnod 8 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 11eg Mai 2015 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y bwriad i gyflwyno Ardal Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin. Yng ngoleuni'r sylwadau a nodwyd yn yr adroddiad penderfynwyd

peidio â diwygio’r map gwreiddiol o'r ffiniau arfaethedig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**6.1 bod Gorchymyn yn cael ei gyflwyno sy'n nodi ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Caerfyrddin, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd;**

**6.2 sefydlu Grŵp Llywio a fydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol i gynorthwyo â datblygu Cynllun Gweithredu;**

**6.3 datblygu Cynllun Gweithredu yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a fydd yn mynd ati i wella ansawdd aer a lleihau lefelau nitrogen deuocsid o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer.**

**7. DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YNGHYLCH ANSAWDD AER LLANELLI**

Gan gyfeirio at gofnod 7 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 11eg Mai 2015 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar yr ymateb i’r ymgynghoriad ynghylch y bwriad i gyflwyno Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Llanelli. Yn sgil yr ymgynghoriad roedd y map o'r ffiniau arfaethedig wedi cael ei ddiwygio i gynnwys Heol y Sandy a Bassett Terrace.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1 bod Gorchymyn yn cael ei gyflwyno sy'n nodi ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llanelli, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd;**

**7.2 sefydlu Grŵp Llywio a fydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol i gynorthwyo â datblygu Cynllun Gweithredu;**

**7.3 datblygu Cynllun Gweithredu yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a fydd yn mynd ati i wella ansawdd aer a lleihau lefelau nitrogen deuocsid o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer.**

**8. GWASANAETH ARCHIFAU SIR GAERFYRDDIN - ARFARNU'R DEWISIADAU POSIBL O RAN LLEOLIAD I'R GWASANAETH**

Gan gyfeirio at gofnod 12 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd 2015 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol y gwasanaeth archifau ac yn amlinellu’r asesiadau o leoliadau posibl ar gyfer Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin. Yn sgil cyfarfodydd safle ag amrywiol adrannau, barn y swyddogion oedd mai estyniad i du cefn Llyfrgell Caerfyrddin fyddai’r lleoliad mwyaf amlwg ar gyfer Gwasanaeth Archifau newydd Sir Gaerfyrddin. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, byddai swyddogion yn mynd ati i lunio cynlluniau manwl a chostau ar gyfer y safle. Roedd yr ymchwiliadau cychwynnol wedi dangos bod digon o le ar y safle ar gyfer popeth sydd ei angen, ac y dylai fod modd cyflawni’r cynllun yn unol â’r gyllideb gyfalaf sydd wedi'i dyrannu.
Diolchodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden i bawb a fu’n rhan o symud materion ymlaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 nodi statws y Gwasanaeth Archifau presennol;**

**8.2 cymeradwyo'r argymhelliad i leoli Gwasanaeth Archifau newydd Sir Gaerfyrddin y tu cefn i Lyfrgell Caerfyrddin.**

**9. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - ADOLYGIAD DWYFLYNYDDOL**

[SYLWER: Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.]

**10. CYMORTH ARIANNOL O GRANT CRONFA'R DEGWM**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais i Gronfa'r Degwm gan Fenter Mynyddoedd Cambrian am gyllid tuag at gynnig 'Gwytnwch Cymunedol a Pharc Natur'.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi grant o £3,000 i Fenter Mynyddoedd Cambrian mewn perthynas â'r prosiect uchod yn amodol ar y telerau a nodwyd yn yr adroddiad.**

**11. CAIS I'R GRONFA DATBLYGU**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gais gan yr Adran Cymunedau i'r Gronfa Ddatblygu am gymorth ariannol i adnewyddu offer ffitrwydd a chynyddu'r lleoedd ffitrwydd yn rhai o gyfleusterau hamdden yr Awdurdod. Y cyllid y gwnaed cais amdano oedd £600,000.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 cymeradwyo rhoi swm o £600,000 ar gyfer adnewyddu offer ffitrwydd a chynyddu'r lleoedd ffitrwydd yn rhai o gyfleusterau hamdden yr Awdurdod;**

**11.2 bod maen prawf rhif 5 y Gronfa Ddatblygu yn cael ei osod o'r neilltu yng nghyswllt y cais hwn;**

**11.3 bod yr ad-daliad am y cynllun uchod yn para dros gyfnod o bedair blynedd;**

**11.4 o ystyried y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd yn y Gronfa Ddatblygu, er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith, bod swm o £500,000 yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i'r Gronfa Ddatblygu, gan ad-dalu'r swm hwn ar gyfradd o £125,000 y flwyddyn dros y pedair blynedd.**

**12. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw am y cyfnod o 1$^{af}$ Ebrill, 2015 i 29$^{ain}$ Chwefror, 2016.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai tanwariant diwedd blwyddyn o £793,000 ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £638,000 ar lefel adrannol. Rhagwelid tanwariant o £2.8m yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb;**

**12.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu**

**sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol er mwyn cadw'r gwariant yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd.**

**13. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2015-16**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2015/16, fel yr oedd ar 28ain Chwefror, 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2016)**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar y penderfyniadau a'r argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol [Chwefror 2016] i'w gynnwys yng Nghynllun Cyflogau a Lwfansau presennol y Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2016/17. Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor roedd yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun ar gyfer Lwfansau'r Aelodau a gydymffurfiai â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ogystal roedd yr Adroddiad yn manylu ar argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor ar gyfer y cyfarfod ar 11eg Mai 2016.

Roedd yr Aelodau yn ansicr ynghylch pa mor ‘annibynnol’ oedd y Panel mewn gwirionedd ac roeddent o'r farn y dylid ystyried lwfansau Cynghorwyr yn erbyn y galwadau arnynt a’r cyfrifoldebau a roddir iddynt, a hynny yn achos Aelodau’r Bwrdd Gweithredol yn benodol, o gymharu ag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Hefyd y farn oedd ei bod yn annhebygol y byddai pobl iau’n cael eu hannog i sefyll mewn etholiadau lleol oni bai ei bod yn economaidd ymarferol iddynt wneud hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYFOL fabwysiadu argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i’r Cyngor.**

**15. ADRODDIAD NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**16. CAM 2 FFORDD GYSWLLT ECONOMAIDD CROSS HANDS - PRYNU TIR**

**Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 15 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Gan gyfeirio at gofnod 3 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2il Mehefin 2014 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn amlinellu’r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran datblygu’r prosiect uchod a’r angen i brynu darnau o dir, lle bo’r angen, er mwyn ei gyflawni. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am

ffynonellau cyllid posibl yn y dyfodol ar gyfer y prosiect.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**16.1 nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y prosiect ers i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r Llwybr a Ffefrir ym mis Mehefin 2014;**
**16.2 cymeradwyo defnyddio pwerau Prynu Gorfodol, yn ôl yr angen.**

**17. LLWYBR BEICIO DYFFRYN TYWI - PRYNU TIR**

**Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 15 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y prosiect uchod a'r angen i brynu darnau o dir, lle bo'r angen, er mwyn ei gyflawni. Byddai'r cynllun yn darparu llwybr cerdded a beicio diogel rhwng Caerfyrddin a Llandeilo gan ddefnyddio'r hen reilffordd drwy Ddyffryn Tywi. Y weledigaeth yw: '*Creu cyfleuster teithio llesol o'r radd flaenaf yn Nyffryn Tywi sy'n cysylltu Caerfyrddin a Llandeilo ac, yn sgil hynny, cysylltu cymunedau, creu cyfleoedd twristiaeth, a hybu teithio diogel, cynaliadwy ac iach.*'. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid posibl yn y dyfodol ar gyfer y prosiect.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**17.1 nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y prosiect;**

**17.2 cymeradwyo prynu tir sydd ei angen ar gyfer y prosiect;**
**17.3 cymeradwyo defnyddio pwerau Prynu Gorfodol yn ôl yr angen.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**